**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 14eg Tachwedd 2024 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Cilcennin**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Robert Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Helen Evans, Eirlys James-Evans ac Iwan Thomas.
Clerc, Denfer Morgan

**231 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Nigel Davies, Arwel Jones, Tina Jones ac Alwen Thomas ynghyd â'r Cynghorydd Sir Marc Davies am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**232 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 12fed Medi 2024.

**233 Materion yn Codi**

Gofynwyd i'r Clerc dynnu sylw'r Cyngor Sir unwaith eto pryder y Cyngor fod y tyfiant ar Bont Teglan yn gwanhau'r strwythur.

**234 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD**

i) talu'r canlynol:

Stad y Goron - £50

ii) nodi derbyn trydydd taliad Praesept 2024-25 yn y swm o £2,000.

**235 Materion Cynllunio**

Rhoddwyd ystyriaeth i gais cynllunio A240780 - Llanerchaeron, Ciliau Aeron.
*Increase the size of an existing concrete pad for the purposes of composting organic material. Replace rubble and earth area with a modular grid with local gravel. Replace post and wire fence with shiplap fence. Install new pedestrian gated area for quarantining plants.*

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

**236 Mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd, Cilcennin**

Derbyniwyd diweddariad gan y Clerc ar:

a) y cais cynllunio ar gyfer y cynllun arfaethedig
b) pryniant y tir.

**PENDERFYNWYD:**

- **i)** nodi fod y caniatad cynllunio wedi ei gymeradwyo a bod y manylion wedi'i dderbyn;
- **ii)** nodi fod cyfreithwyr y Cyngor, Gwynne Hughes, wedi cysylltu gyda chyfreithwyr yr Eglwys yng Nghymru er mwyn dechrau'r broses o brynu'r tir.

**237 Ysgol Dyffryn Aeron**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r gwahoddiad i benodi un cynrychiolydd yr Awdurdodau Llai ar Gorff Llywodraethol parhaol Ysgol Dyffryn Aeron o 1af Ionawr 2025.

**PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd Helen Evans.

**238 Cyfarfod ar y Cyd gyda Chyngor Sir Ceredigion**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r gwahoddiad i benodi dau gynrychiolydd i fynd i gyfarfod rhwng cynrychiolwyr y Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned ar nos Fercher, 27ain Tachwedd 2024.

**PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc gynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod.

**239 Damwain ffordd ar y B4337**

Nodwyd fod adolygiad o gyfyngiadau cyflymder ar gyfer ffyrdd y sir ar y gweill.

**240 Unrhyw Fater Arall**

**a)** Nodwyd ymddiswyddiad Ray Williams yn ffurfiol a **PHENDERFYNWYD** dechrau'r broses o lenwi'r lle gwag ar y Cyngor

**b)** Stad y Goron: Nodwyd fod sawl Cyngor wedi gwneud penderfyniad yn datgan eu cefnogaeth i ddatganoli tir Stad y Goron i Lywodraeth Cymru a **PHENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

Mae Cyngor Cymuned Ciliau Aeron yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol i ddatganoli'r rheolaeth dros yr holl asedau sydd ym meddiant Stad y Goron yng Nghymru ac oddi ar ei harfordir i Lywodraeth Cymru. Galwa yn ogystal am i lif refeniw'r asedau hyn ddod yn llwyr i goffrau Llywodraeth Cymru ac i Lywodraeth Cymru feddu ar yr hawl i'w defnyddio fel y dymuna.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:20pm